PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 9 Chwefror 29, 2024 50c.

## DATGORFFORI PISGAH, CARMEL, DYFFRYN NANTLLE

Fel cadeirydd newydd Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd, bu'n rhaid i mi arwain gwasanaeth datgorfforí eglwys Pisgah Carmel. Gorchwyl digon trist ac amhleserus. Yn anffodus, am nifer o resymau, dim ond chwech ohonom oedd yn bresennol.



Cychwynnodd yr achos ym Mhisgah yn 1820 a hynny trwy weithgarwch David Griffiths, Talysarn. Roedd yn arferiad gan rai o Garmel fynd i'w oedfaon yn Nhalysarn ac ymhen amser, codwyd awydd yn eu mysg i gael man addoli yn eu bro eu hunain.

Dechreuwyd cynnal gwasanaethu mewn dau ffermdy, Glyn Mabon Mawr a Phenbryn Hafoty. Yn y man, teimlwyd yr angen i godi addoldy a chynigwyd tir gan John Rowlands, Penbryn Hafoty. Mae hanes diddorol am ferched yn cynorthwyo gyda'r adeiladu. Labra Hughes a Catherine Williams yn cario dŵr i gymysgu calch. Gweinidogaethwyd i ddechrau gan Isaac Harries, myfyriwr o athrofa'r Neuadd-lwyd, Aberaeron. Bu nifer o weinidogion dros y blynyddoedd.

Yn 1851, gwelwyd cynnydd yn y gynulleidfa a bu'n rhaid ymestyn y capel. Cafwyd adeilad newydd yn 1878 a festri newydd yn 1904. Yn 2001 gwerthwyd y capel ac addasu'r festri. Yn fwy cymen ar gyfer gofynion yr oes. Yn ystod y cyfnod yma, daeth y Parchg Ioan Wyn Gruffydd yn ysgogydd cenhadol, gan ofalu am oedfaon y Sul ym Mhisgah.

Dros y blynyddoedd, collwyd y diaconiaid i gyd trwy farwolaeth a dirywiodd presenoldeb yr aelodau. Bu addoli am sbel gyda'r Presbyteriaid. Ni fu oedfa ym Mhisgah ers tua 10 mlynedd ac erbyn hyn nid oes unrhyw gapel nag eglwys ar agor yma. Cofir am rai a fu'n fodd i gadw'r lamp yn olau dros y blynyddoedd. Oswald ac Althea Williams, R. E. Jones, Richard Pritchard, Margaret Williams ac yn fwy diweddar Jane Williams i enwi dim ond rhai. Pobl o galibr a rhuddin oedd yn caru'r achos ac yn fodd i gadw'r lamp ynghynn.

Os ydym yn drist heddiw wrth weld cau drws, llawenydd yw cofio am y gorffennol a boed cysur inni hefyd o gofio y bydd achos Crist yn parhau ac y bydd yntau hefo ni yn ein cynnal a'n harwain.

Saif ein gobaith yn yr Iesu
Brenin nef, goleuni'r byd
Ei ddoethineb a'i ddaioni
A ffrwythlona'n gwaith i gyd
Llawenhawn, drwyddo cawn
Holl adnoddau Duw yn llawn.

**Glenys Jones**
(Tachwedd 2023)

## Gŵyl Ddewi

Mae Gŵyl Ddewi'n gyfle inni gofio'r pethau gorau sy'n perthyn inni fel cenedl, gan ddiolch i Dduw am y bendithion yr ydym wedi eu derbyn ganddo fel treftadaeth. Ein tir a'n hanes, ein hiaith a'n llenyddiaeth, ein barddoniaeth a'n cerddoriaeth. Y mae'n gyfle inni hefyd i gadarnhau ein hunaniaeth fel cenedl a'r hyn sy'n ein gwneud yn unigryw. Ond rhaid gwneud hynny'n ddoeth ac yn ystyriol ac nid yn hunangyfiawn a ffroenuchel gan fynd i feddwl ein bod ni'n rhagorach na chenhedloedd eraill. Fel y gwelwn yn y byd heddiw, gall cenedlaetholdeb cul hunandybus arwain at wrthdaro a rhyfel, felly, mae'n bwysig gweld ein hunain fel rhan o batrwm ehangach gan hybu cydweithrediad a pharch tuag at bob cenedl. Un genedl fechan ydym ni ym mrodwaith lliwgar cenhedloedd y byd.

Ac fel Cristnogion Cymraeg rydym yn dathlu a diolch yn arbennig am ein treftadaeth Gristnogol y gallwn ei olrhain yn ôl dros y canrifoedd o ddyddiau Dewi hyd yn awr. A thrwy'r cyfnod hwnnw bu'r dystiolaeth Gristnogol yn ddi-dor a'i dylanwad yn fawr ar ein cenedl. Mae'r naill genhedlaeth ar ôl y llall wedi trosglwyddo mantell y ffydd ac y mae'r Arglwydd wedi bendithio'r dystiolaeth honno. A ninnau heddiw sydd yn gwisgo'r fantell honno.

Daeth llanw a daeth trai dros y canrifoedd ond parhau yr ydym i rannu'r newyddion da. Byw mewn cyfnod o drai ysbrydol rydym ni heddiw ond yr un yw ein braint fel Cristnogion, fel erioed, i fyw a chyhoeddi'r Efengyl ymhlith ein cyd-Gymry. Y gymwynas fwyaf un y gallwn ni ei wneud gyda'n cenedl yw rhannu Iesu Grist fel Arglwydd a Gwaredwr gan eu hannog i gredu ynddo a gwneud disgyblion.



### Cymru

Fy ing enfawr, fy ngwynfyd, - fy mhryder,
Fy mharadwys hyfryd;
Ei charu'r wyf yn chwerw hefyd,
A'i chasáu'n serchus o hyd.

Alan Llwyd

O deued dydd pan fo awelon Duw
Yn chwythu eto dros ein herwau gwiw.

Gweddïwn, gweithiwn ac ymdrechwn i weld y dydd hwnnw.

# Llurig Badrig

*Math o arfwisg yw 'llurig'. Yn Saesneg mae'r gerdd yn cael ei hadnabod fel St Patrick's Breastplate, sef gweddi sy'n ymbil ar i Grist ein gwarchod. Diolch i'r Parchg Emyr Gwyn Evans am yr erthygl yma sy'n olrhain hanes hir y gerdd.*

Hen gerdd allai fod yn emyn ydyw 'Llurig Badrig'. Mae'n gerdd hynafol iawn, sy'n dyddio yn ei ffurf bresennol o'r wythfed ganrif. Yn ôl J. E. Caerwyn Williams, yn ei gyfrol *Traddodiad Llenyddol Iwerddon*, roedd clerigwyr yr Eglwys Gristnogol yn Iwerddon yn cyfansoddi emynau o leiaf ers y seithfed ganrif, ac o bosib mor gynnar â'r chweched. Meddai Gomer Roberts am y gerdd: 'Rhyfelgerdd ydyw, yn cynnwys cymysgedd o gredo a swyngyfaredd. Ysgrifennid y math hwn o ganu crefyddol – y *Lorica* neu'r Llurig – yn dair adran, sef (*a*) galw ar y Drindod Sanctaidd a'r Engyl; (*b*) nodi'r rhannau o'r corff y dymunid eu diogelu; a (*c*) rhestru'r drygau y dymunid cael diogelwch rhagddynt. Ystyrid y Llurig fel math o arfogaeth ysbrydol. Tebyg fod patrymau'r math hwn o ganu o darddiad cyn-Gristnogol a phaganaidd, ond fe'i cymerwyd drosodd gan Eglwys gyntefig Iwerddon.'



## Dwy fersiwn

Mae'r tair adran uchod yn amlwg yn 'Llurig Badrig'. Cyfansoddiad o waith Gomer M. Roberts ydyw cyfieithiad isod y gerdd. Wrth ei chyfansoddi, o ran mesur a dewisiad o'r deunydd, roedd wedi pwyso ar waith yr Athro R. A. S. Macalister gydag ambell adlais o eiddo cyfieithiad T. Gwyn Jones o'r gerdd. Ceir dwy fersiwn Saesneg o'r Llurig yn y *Church Hymnary* (1927), sef trosiad neu gyfansoddiad Mrs C. F. Alexander, a ddaeth yn boblogaidd iawn, a throsiad yr Athro Macalister. Gofynnodd Gomer Roberts hefyd a oedd yna gerddor a deimlai ar ei galon i gyfansoddi tôn Gymreig ei nodwedd ar gyfer 'Llurig Badrig'?

Cyfodaf heddiw
  Yn enw'r Drindod, Trined gytûn,
  Addefaf y sanctaidd Dri yn Un,
  Creawdwr byd a phob perchen ffun.

Cyfodaf heddiw
  Drwy rinwedd Crist a'i eni drud,
  Ei angau, a'i roi'n y beddrod mud,
  A'i ddyfod drachefn i farnu'r byd.

Cyfodaf heddiw
  Drwy nerth y gwyn angylaidd lu;
  Ac addewidion proffwydi cu,
  A chred y ffyddloniaid, oll o'm tu.

Cyfodaf heddiw
  Drwy rin holl oleuadau'r nef,
  Y mellt, a mawrwynt y storom gref,
  Y môr, a'r ddaear a sefydlodd Ef.

Cyfodaf heddiw,
  Â gallu Duw i'm harwain ar daith,
  I'm cadw, a'm tywys drwy'r anial maith,
  Ei glust i'm gwrando, a'i Air imi'n iaith.

Ti yw fy nodded
  Rhag drwg weithredoedd cythreulig lu,
  Rhag euog rysedd fy chwantau du,
  A'm holl elynion ar bob tu.

*parhad ar y dudalen gefn*

# Capel Berea, Pentreberw

Fel arfer byddwn yn cyfarfod pob pnawn Sul gan gynnal oedfa o fawl yn cynnwys pregeth. Ond gan fod gennym Sul gwag ar 4 Chwefror penderfynwyd y byddem yn gwneud rhywbeth ychydig yn wahanol. Aethpwyd ati i gynnal gwasanaeth ein hunain, a da o beth hynny hefyd, gan ein bod wedi cael oedfa arbennig yn ymwneud â Ffynhonnau Byw.

Trefnwyd yr oedfa gan ddau o'n diaconiaid sef Margaret Evans a Bethan Llewelyn. Yn ystod y cyflwyniadau cawsom wybod sut mae rhan arall o'r byd yn byw ac o'r anghenion sydd mewn gwlad fel Colombia. Roedd yn brofiad addysgiadol a diddorol iawn, oedd yn agor ein llygaid. Canwyd emynau pwrpasol gydag Iwan Evans yn cyfeilio ar yr organ a chan ein bod yn nifer mor fach roedd yn canu yn eithriadol o dda ac fe fu i ni fwynhau yn fawr. Da oedd cael bod yno. I ddiweddu cawsom wrando ar Dafydd Iwan (nid yn gorfforol) yn canu'r gân, 'Hawl i Fyw', sy'n cynnwys y geiriau dirdynnol:

Do, mi welais y gwleidyddion yn mynd heibio,
A phob un yn ysgwyd pen mor ddoeth, mor ddwys,
Ac mi welais yr offeiriad yn penlinio,
Cyn fy mhasio am nad wyf i'n neb o bwys.

Ond fe'm ganwyd innau'n fab i fy rhieni,
Ac mi glywais ddweud fod pawb yn blant i Dduw,
Rwy'n frawd i ti a thithau'n frawd i minnau,
O pam na chaf i hefyd hawl i fyw?

Gwnaed casgliad sylweddol tuag at Apêl Ffynhonnau Byw. Diolchwyd yn gynnes iawn i bawb gan y diacon Brynmor Jones am wasanaeth bendithiol.

**Megan Williams**



Yr Adran Gydenwadol

CHWEFROR 29 2024 RHIF 157

# Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 3 Hael (Detholiad)

**Gofyn Ymlaen Llaw: cwestiwn i'w ystyried cyn y sesiwn hon**

A fedrwch chi feddwl am adeg pan ddangosodd rhywun haelioni i chi a aeth y tu hwnt i'ch disgwyliadau? Pa wahaniaeth wnaeth hynny i'ch bywyd?

**Darlleniad o'r Ysgrythur: Marc 12:41–4 – 'Offrwm y Weddw'**

**Myfyrdod: Sut ydyn ni'n byw'n hael yng nghanol argyfwng costau byw?**

Yn 2024, mae llawer o bobl yn y Deyrnas Unedig ac mewn gwledyddd eraill ledled y byd yn ceisio ymgodymu ag argyfwng costau byw. Mae'n ddigon posib bod y rhain yn cynnwys aelodau o'ch eglwys chi sy'n ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Efallai yr hoffai pobl rannu hyn gydag aelodau eraill y grŵp (ond efallai ddim). Byddwch yn ofalgar o hyn yn ystod eich trafodaethau.

Sut mae modd inni fod yn 'bobl sydd wrth eu boddau yn rhoi' (2 Corinthiaid 9:6) pan ydyn ni eisoes yn teimlo'r wasgfa neu'n waeth na hynny?

Pan fydd pawb yn ceisio cadw golwg ar eu gwariant, gall y dasg o daclo tlodi ymddangos yn llethol.

Fe wyddon ni fod sawl eglwys yn dal i fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig. Efallai fod llai o bobl yn ymwneud â'ch eglwys ar hyn o bryd, neu fod cyllid yr eglwys yn bryder, o bosib?

Sut allwn ni fod yn hael gyda'n hamser, ein hegni a'n hadnoddau pan ydyn ni eisoes yn teimlo'u bod nhw'n brin?

**YSTADEGAU**

**Mae'r 10% cyfoethocaf o bobl y byd ar hyn o bryd yn cymryd 52% o'r incwm byd-eang, tra mae hanner tlotaf y boblogaeth yn ennill 8.5% yn unig ohono.**
(Ffynhonnell: Adroddiad ar Anghydraddoldeb y Byd 2022).
**'Mae corff sylweddol a chadarn o ymchwil sy'n awgrymu bod gwledydd sydd â lefelau uwch o anghydraddoldeb yn meddu ar lefelau is o ymddiriedaeth.'**
(Ffynhonnell: Yr Ymddiriedolaeth Cydraddoldeb)



Fe all yr hanesyn uchod yn Efengyl Marc gynnig rhywfaint o anogaeth inni. Cyfeirir yn aml ato fel stori 'hatling y wraig weddw'. Yr 'hatling' oedd y darn arian lleiaf o arian oedd mewn defnydd yng nghyfnod Iesu, tebyg i geiniog ein dyddiau ni. Fe all mai'r stori hon oedd yr ysbrydoliaeth ar gyfer yr ymadroddion fel 'dweud fy nghnegwarth' neu 'rhyw ateb ceiniog a dime' – sy'n cyfeirio at farn nad ydyn ni'n meddwl sy'n cyfrif fawr ddim.

Mae rhodd y weddw yn bitw bach, cyn lleied ei gwerth fel ei bod yn ymddangos bron yn ddiwerth. Faint o wahaniaeth mewn gwirionedd y gall ceiniog neu ddwy ei wneud? Er hynny, mae Iesu'n gweld y rhodd ac yn gwneud sylw amdani. Mae fel petai'n canmol haelioni eithriadol y weddw. Efallai mai diben y stori hon ydy dangos inni fod i weithredoedd bach o haelioni werth mawr a bod Duw yn cydnabod hyn.

O feddwl am hyn ychydig pellach, fe welwn fod yma her yn ogystal ag anogaeth. Mae rhodd y weddw (er yn bitw bach mewn termau ariannol) wedi golygu trosglwyddo'r cyfan sydd ganddi. Efallai y bydd y 'bobl gyfoethog' yn cynnig 'symiau mawr' ond oherwydd eu cyfoeth, cymharol fach ydi'r gost bersonol iddyn nhw, mewn gwirionedd. Prin y bydden nhw'n sylwi'r gwahaniaeth o ddydd i ddydd. Felly, mewn termau go iawn, gyda'i cheiniog neu ddwy, fe roddodd y weddw fwy na nhw i gyd. Os ydy Iesu'n cyflwyno'r weddw fel esiampl inni, yna y disgwyliad ydy y byddwn ninnau yr un mor eithriadol yn ein rhoi. Mae'n ymddangos ein bod yn cael ein galw i fod yn hael, hyd yn oed pan nad oes fawr ganddon ni yn weddill. Mae hyn yn beth anodd i'w lyncu!

Ond nid dyma'r stori i gyd, fodd bynnag. Mae rhai esbonwyr ar y darn hwn wedi tynnu sylw at gyd-destun y sylw mae Iesu'n ei wneud. Yn union cyn yr adnodau hyn, mae Iesu'n codi ei lais yn erbyn y rhai hynny mewn grym sy'n 'dwyn popeth oddi ar wragedd gweddwon', ac eto'n hawlio parch ac anrhydedd. Mae'n ddig tuag at system sy'n amddifadu pobl, sydd eisoes yn fregus, o'u tai a'u bywoliaethau.

Pan mae Iesu'n gwneud sylw am haelioni'r weddw, tybed ai ei brif ddiben ydy cwestiynu sut y bu iddi ei chael ei hun mewn tlodi eithafol? Pam y dylai ei rhodd hithau olygu gorfod ildio 'y cwbl oedd ganddi i fyw arno', tra bo eraill yn parhau yn ddedwydd eu byd? A ydy pwyslais y stori'n llai ar roi o'n ceiniogau prin a mwy ynglŷn â herio system sy'n creu tlodi'r weddw yn y lle cyntaf?

Fel yn aml yn Efengyl Marc, does yna ddim ateb syml. Wyddon ni ddim beth ddigwyddodd i'r weddw wedi iddi wneud ei chyfraniad. A dydyn ni ddim yn cael clywed ganddi hi'n uniongyrchol am ei phrofiad a beth ddaeth â hi i'r fan yma.

Mae Duw'n addo 'bywyd ar ei orau' i ni – gras, tangnefedd, cyfiawnder a gorfoledd diddiwedd, di-ffael. Dyna'r hyn mae Duw'n ei ddymuno i ni a'r hyn y mae Duw'n ei ddymuno inni ei estyn i eraill, drwy weithredoedd o haelioni a chariad.

Ond neges wahanol a glywn gan y byd o'n cwmpas ac yn aml o'r tu mewn i ni'n hunain. Y neges hon ydy ein bod wastad yn brin, bod beth bynnag sydd ganddon ni ddim yn ddigon. Does yna ddim digon i'w rannu, medden nhw; rhaid inni neilltuo'r hyn a allwn i ni'n hunain, jest rhag ofn. Ymwrthod â'r neges hon y mae'r wraig weddw. Mae hi'n rhoi fel tasai dim angen unrhyw beth arni. Mae'r cyfranwyr cyfoethog yn meddu ar bopeth sydd ei angen arnyn nhw ond yn cadw rhywbeth yn ôl. Mae'r weddw, yn ôl safonau cyfnod Iesu a'n cyfnod ninnau, yn 'annoeth' yn nhermau'r byd. Mae'r cyfoethog yn fwy rhesymol, gan eu bod nhw'n pwyso a mesur ac yn dal yn ôl rhag bod yn rhy hael. Dydy hyn ddim i fod i wneud yn fawr nac yn fach o wir effaith tlodi affwysol y weddw. Ond mae'n awgrymu y gall haelioni fod yn weithred herfeiddiol. Pan glywn ein bod yn brin neu'n ddiffygiol; **pan fo'r byd yn dweud wrthon ni y dylen ni ddal yn ôl, gall ein haelioni ddatgelu gweledigaeth wahanol. Efallai bod ein dwy geiniog ninnau'n cyfrif mwy nag a feddyliwn.**

**Gwrandewch: Stephen Amusala, Gwasanaeth Datblygu Anglicanaidd Gorllewin Kenya**

https://soundcloud.com/actonpoverty (7 munud)
Mae Stephen yn disgrifio sut y gall anobaith fagu lle bo tlodi. Mae hefyd yn sôn am yr hyn y gellir ei wneud mewn ymateb. "A ydy

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 2*
*Hael (Detholiad)*
*(parhad o dudalen 1)*

Duw'n fy ngharu?" – ydy hwn yn gwestiwn rydych chi wedi gofyn yn ystod eich bywyd? Beth ysgogodd y cwestiwn? A wnaeth pobl o'ch cwmpas ddangos cariad Duw tuag atoch? Sut wnaeth hyn amlygu ei hun?

**Gwrandewch: Y Ddiacones Kerry Scarlett, Is-lywydd y Gynhadledd Fethodistaidd**

https://soundcloud.com/actonpoverty (8 munud)
Cewch ei chlywed yn siarad am ei phrofiad o gael ei magu yng nghanol y gwrthdaro yng Ngogledd Iwerddon, ei phrofiad gweinidogaethol gyda chymunedau sy'n profi amddifadedd economaidd, a'r mannau lle y profodd haelioni yn ei bywyd.

**Ysbrydoliaeth: Street Banquet, Birmingham**

Gwyliwch ein ffilm fer yma: https://ifs.org.uk/tools_and_resources/where_do_you_fit_in

Mae *Street Banquet*, menter gan yr Eglwys Fethodistaidd, yn cynnig prydau parod a chymdeithas i'r rhai digartref a'r bregus ac yn eu gwahodd i ymuno mewn cynnig prydau i eraill. Yn y fideo hon, fe gewch fwy o wybodaeth am *Street Banquet* fel man lle rhennir haelioni, lle mae'r gwahoddedigion eu hunain yn cael cynnig y cyfle i weini.

**Taclo Tlodi – Beth allech chi a'ch eglwys ei wneud?**

**Cam 1:** Gwrandewch ar ein darn sain ychwanegol ar gyfer y sesiwn hon (https://soundcloud.com/actonpoverty), lle clywir Stef Benstead yn amlinellu ei hymwneud â'r Comisiwn Gwirionedd ar Dlodi ym Manceinion. Ystyriwch ble yn eich eglwys a'ch cymuned y mae lleisiau'r rhai hynny sydd â phofiad byw o dlodi yn cael eu clywed a chamau'n cael eu gweithredu.

**Cam 2:** Cadwch lygad ar y newyddion yr wythnos hon a chwilio am enghraifft o haelioni, neu sefyllfa lle mae cam bach yn y cyfeiriad iawn wedi arwain at newidiadau mawr. Nodwch beth ynghylch yr enghraifft hon sydd wedi eich ysbrydoli. Efallai yr hoffech rannu'r hyn welsoch chi gydag eraill yn eich eglwys.

**Gweddi i Gloi – amrywiadau ar 'Y Gwynfydau'**

Mae'r rhai sy'n herio strwythurau economaidd anghyfiawn wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd nhw fydd arwyddion gobaith.

Mae'r rhai sy'n chwyddo lleisiau ac yn adrodd hanesion pobl eraill wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd byddant yn dysgu doethineb cyd-ddibyniaeth.

Mae'r rhai sy'n cydnabod eu breuder a'u bywydau toredig wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd byddant yn ymwrthod â bod yn waredwyr ac yn arwyr yn hanesion pobl eraill.

Mae'r rhai sy'n ymateb i anghenion pobl eraill, heb yr angen am gydnabyddiaeth na gwobr, wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd eu bod yn gwasanaethu Crist ei hun.

Mae'r rhai sy'n protestio ac yn ymgyrchu wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd maen nhw'n tynnu sylw at anghyfiawnder.

Mae'r rhai sy'n meithrin cyfeillgarwch ymysg pobl amrywiol wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd fe fyddan nhw'n tyfu'n gymuned gynhwysol.

Mae'r rhai sy'n gynddeiriog â dicter wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd maen nhw'n ein herio i wynebu gwirioneddau anghysurus.

Mae'r rhai chwilfrydig wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd fe gânt weld y tu hwnt i atebion y rhai grymus.

Mae'r rhai sy'n dathlu gwerth ac urddas pob person byw wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd fe fyddan nhw'n adnabod wyneb Duw.

Mae'r rhai sy'n gweithio dros gyfiawnder hiliol wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd maen nhw'n herio pechod hiliaeth ac yn adnabod gwir gyfoeth ac amrywiaeth delwedd Duw.

Mae'r rhai sy'n hwyluso arweinyddiaeth pobl eraill wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd nhw sy'n cynnal y presennol a'r dyfodol.

Byddwch lawen, oherwydd bydd y rhai sy'n gwrando ac yn dysgu o ddifrif gan bobl sy'n profi tlodi yn rhannu neges fywiol Efengyl Crist o ryddhad.

*Y Ddiacones Eunice Attwood*

## Cytûn, Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, yn gwahodd ceisiadau am swydd

# Ysgrifennydd Cyffredinol

**Mae Cytûn, Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, yn gwahodd ceisiadau am swydd Ysgrifennydd Cyffredinol a ddaw'n wag toc oherwydd ymadawiad y Prif Weithredwr presennol, Siôn Brynach.**

**Bydd deiliad y swydd yn**

- arwain gyda gweledigaeth ar eciwmeniaeth ac ymwneud â'r cyhoedd gan Eglwysi Cymru a bydd yn galluogi ac yn dwyn ymlaen y rhaglen waith a'r blaenoriaethau a osodir gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Cytûn i wasanaethu'r Eglwysi;
- goruchwylio cefnogaeth i'r Cyfamod dros Undod yng Nghymru trwy Gomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol;
- rheoli tîm sy'n cyflwyno'r rhaglen waith y cytunwyd arni gan y bwrdd a'r eglwysi sy'n aelodau;
- Gristion sy'n deall ac yn derbyn sylfaen drindodaidd Cytûn;
- gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg a Saesneg.

**Am fwy o wybodaeth am Cytûn, y rôl, a'r unigolyn yr ydym yn chwilio amdani/o, cysylltwch a cadeirydd@cytun.cymru**

**Gwnewch gais ar-lein at cadeirydd@cytun.cymru**

A fyddwch cystal â chynnwys y canlynol:

- CV cynhwysfawr sydd yn cynnwys eich llwyddiannau diweddar a manylion dau ganolwr, gydag un ohonynt yn goruchwylio eich gwaith cyfredol.
- Llythyr cais o dim mwy na 1000 gair sydd yn cynnwys eich rheswm dros wneud cais a'r priodweddau y byddwch yn eu dwyn i'r rôl.
- **Rhaid derbyn ceisiadau erbyn 22 Mawrth 2024.**

**Cynhelir cyfweliadau ar 19 Ebrill 2024**

**Cysylltwch â cadeirydd@cytun.cymru os oes gennych unrhyw ymholiadau**

Mae gwybodaeth bellach i'w gael o ymweld â gwefan Cytûn: https://www.cytun.co.uk/cytun-eglwysi-ynghyd-yng-nghymru-yn-gwahodd-ceisiadau-am-swydd-ysgrifennydd-cyffredinol/

# John Rhys (27 Gorffennaf 1928–18 Rhagfyr 2023)



Ganwyd John Rhys yn Nhrehopcyn, ger Pontypridd, a bu ei rieni – Trefor a Blodwen Rhys – yn ffyddlon i Gapel Rhondda (Bedyddwyr Cymraeg) ar hyd eu hoes. Bu Trefor yn ysgrifennydd y capel am flynyddoedd maith. Ond wedi i Trefor gael swydd yn dysgu yn yr ysgol gynradd yn Ystum Taf, Caerdydd, fe symudodd y teulu yno, a chafodd John ei fagu hefyd yn ysgol Sul eglwys gynulleidfaol Saesneg Christ Church, Ystum Taf.

Yn ei arddegau, fe ymdeimlodd â galwad i bregethu, ac am 60 mlynedd fe fu'n bregethwr cynorthwyol yn eglwysi Caerdydd a'r cymoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd yn awyddus i gyflwyno dysgeidiaeth Feiblaidd mewn ffordd ddealladwy, a bu'n ysgrifennydd am flynyddoedd ar Ganolfan Addysg Gristnogol Oedolion Caerdydd (CACEC) ac elusen Cyfeillion Cymreig yr Anghenus, yn helpu ffoaduriaid wedi'r Ail Ryfel Byd ac yna blant yng ngwledydd Affrica.

Wedi graddio gyda BA ac MA mewn Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd, fe fu'n gweithio i'r Cynilion Cenedlaethol fel swyddog ysgolion. Bu raid iddo symud i Sir Gaerhirfryn gyda'i waith, ond roedd wastad yn awyddus i ddychwelyd i Gymru, ac ym 1957 ymsefydlodd yn Rhiwbeina gyda'i wraig gyntaf, Sylvia, lle bu fyw weddill ei oes. Yno y ganed eu mab, Gethin. Ymgartrefodd yng Nghapel Beulah (Cynulleidfaolwyr Saesneg). Roedd John yn gefnogwr brwd dros sefydlu'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig ym 1972, gan ddod yn glerc ar Synod Cymru am dymor yn y 1990au. Bu'n ddiacon ac yn flaenor lleol, ac yn gyd-arweinydd ar y dosbarthiadau Beiblaidd a oedd yn aml yn cwrdd yn ei gartref, yn enwedig wedi iddo briodi ei ail wraig Barbara, hithau yn flaenor yn Beulah, ym 1989.

Ym 1967 daeth yn was sifil gyda Bwrdd Iechyd Cymru ac yna yn adran gyffredinol y Swyddfa Gymreig. Fel rhan o'i waith, ym 1971–2 ef oedd ysgrifennydd Pwyllgor Bowen, a argymhellodd gyflwyno arwyddion ffyrdd dwyieithog i Gymru. Rhoddodd hyn gyfle i John deithio gyda'r Pwyllgor i Wlad Belg, y Ffindir ac Iwerddon, oedd eisoes ag arwyddion o'r fath. Fe brynodd esgidiau newydd i fynd i Wlad Belg, ond roedd yr esgidiau yn llythrennol yn gwasgu a gwnaed difrod parhaol i fawd ei droed dde. Gellir dweud iddo aberthu'r bawd hwnnw dros yr iaith Gymraeg, gan i'r Llywodraeth dderbyn argymhelliad yr adroddiad, a ddrafftiwyd gan John, y dylai pob arwydd ffordd a osodwyd o'r newydd fod yn ddwyieithog, gan felly roi amlygrwydd newydd i'r Gymraeg ar bob heol yng Nghymru.

Ym 1973 sefydlodd y llywodraeth Gyngor yr Iaith Gymraeg, gyda John eto'n ysgrifennydd. Argymhellodd hwnnw i Lywodraeth y Deyrnas Unedig wneud cyfraniadau ariannol i fudiadau gwirfoddol megis Mudiad Ysgolion Meithrin, a chynyddu'r arian cyhoeddus i waith Cymraeg a gefnogwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru ac ati. Pennawd yr adroddiad terfynol ym 1977 oedd rhoi £1 miliwn y flwyddyn o arian cyhoeddus er hybu'r iaith Gymraeg – cam bychan ond pwysig tuag at Gymru ddwyieithog.

Erbyn i'r adroddiad hwnnw gael ei gyhoeddi, roedd John wedi cael ei benodi ym 1976 yn Gyfarwyddwr ar Wasg Prifysgol Cymru, a bu yno nes iddo ymddeol ym 1990. Er ei fod yn caru llyfrau, nid oedd wedi gweithio cyn hyn yn y byd cyhoeddi, a bu'n ffodus i etifeddu tîm bychan ond brwd a oedd eisoes yn hyddysg yn y maes. Roedd rhychwant y llyfrau yn eang – roedd wrth ei fodd yn cyhoeddi cyfrolau diwinyddol gan yr Athro Aubrey Johnson; Geiriadur Lladin–Cymraeg Huw Thomas (a oedd, yn digwydd bod, yn athro Lladin ar Gethin); a chyhoeddwyd yn eu tro rannau o Eiriadur Prifysgol Cymru. Araf oedd hwnnw i ddod i fwcwl (llwyddwyd i gyrraedd 'obo' yn ystod cyfnod John), ac wedi ymddeol aeth i Aberystwyth i helpu gydag ysgrifennu a didoli'r slipiau papur a oedd yn sail i'r cyfan. Bellach, wrth gwrs, mae'r we wedi trawsnewid y Geiriadur. Bu hefyd yn aelod gweithgar o Gyngor Llyfrau Cymru a'i banel grantiau, gan felly ddatblygu'r gwaith a argymhellwyd gan Gyngor yr Iaith Gymraeg.

Yn y 1990au fe'i gwahoddwyd i gadeirio'r trafodaethau aflwyddiannus am ffurfio eglwys rydd, unedig i Gymru. Fe ymddiswyddodd pan dynnodd yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig – er mawr siom iddo – allan o'r trafodaethau, ond ni phallodd erioed ei awydd i weld undod rhwng yr eglwysi. Bu farw yn dawel gartref yng nghwmni ei deulu, sydd yn mawrygu ei gyfraniad diymhongar mewn cymaint o feysydd.

*Gethin Rhys*

# Paratoi ar gyfer y Pasg – chwilio am gymorth

A ninnau bellach yn nhymor y Grawys, rydym wedi dechrau ar y gwaith blynyddol o gasglu a gosod adnoddau ar y we i helpu ysgolion Sul ac eglwysi i ddathlu'r Pasg. Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn cywain gan wahanol enwadau a mudiadau eu hadnoddau diweddaraf, boed yn wersi neu'n astudiaethau Beiblaidd, myfyrdodau, ffilmiau neu luniau, gweddïau ayyb. Bydd adran bwrpasol ar ein gwefan i rannu'r adnoddau hynny gydag eraill.

Tybed a fedrwch chi ein helpu ni? Oes 'na ddeunydd yng nghombil y cyfrifiadur, efallai? Rhywbeth a baratowyd ar gyfer cynulleidfa leol a allai fod o fudd a gwerth i eraill? Beth am yrru unrhyw ddeunydd atom i'w ystyried? Byddai'n dda cael deunydd sydd eisoes wedi ei dreialu ac wedi ei baratoi ar gyfer cynulleidfa o blant neu oedolion yn lleol. Efallai fod 'na oedfa neu wasanaeth plant, emyn neu weddi y byddai modd i chi eu rhannu â ni? Gallwn wedyn rannu'r rhain gydag eraill ar hyd a lled Cymru. Cysylltwch ag Aled Davies ar aled@ysgolsul.com am sgwrs neu i anfon deunyddiau.

*Aled Davies*
*Cyngor yr Ysgolion Sul / Cyhoeddiadau'r Gair*

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 3 Mawrth am 7.30yh**
Lisa Gwilym fydd yn cwrdd â rhai o bobl ysbrydoledig Wrecsam wrth i ni ddathlu Gŵyl Nawddsant Cymru. A chawn fwynhau detholiad arbennig o emynau gwladgarol o addoldy bendigedig, Eglwys San Silyn yn y ddinas.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 3 Mawrth, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parch. Iwan Llewelyn Jones

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 3 Mawrth, am 12yp**
Oedfa dan ofal Rachel Radbourne, Llangefni.

# Traddodiad ac Addasiad

## Y Gymanfa Ganu: Dathliad Ffyddlon y Pasg a Bwrdwn y Boiler

Yn y tapestri o fywyd crefyddol, mae traddodiadau yn edafedd sy'n plethu cymunedau ynghyd, gan ffurfio ffabrig cyfoethog o gredoau, arferion a dathliadau a rennir. I lawer o eglwysi, nid digwyddiad arferol yn unig yw gŵyl flynyddol y Pasg o ganu mawl i'r Arglwydd ond traddodiad annwyl, adeg pan fydd cynulleidfaoedd yn ymgynnull i fynegi eu ffydd trwy emynau a gweddïau. Fodd bynnag, eleni, wrth i heriau annisgwyl ddod i'r amlwg ar ffurf problem wresogi yn yr eglwys, mae'r gynulleidfa'n wynebu penbleth: sut i gynnal traddodiadau wrth lywio rhwystrau annisgwyl – bwrdwn y boiler.

### Angor

Mae traddodiadau yn yr eglwys yn angor ysbrydol, gan ddarparu ymdeimlad o barhad a chysylltiad â'r gorffennol. Mae gŵyl y Pasg, gyda'i hemynau o atgyfodiad a llawenydd, wedi bod yn ffynhonnell cysur ac ysbrydoliaeth ers cenedlaethau. Mae'n amser pan ddaw'r gymuned at ei gilydd i ddathlu daliadau canolog eu ffydd, gan feithrin ymdeimlad o undod a phwrpas cyffredin. Mae traddodiadau fel y rhain yn creu ymdeimlad o berthyn ac yn darparu fframwaith ar gyfer addoli sy'n ymestyn y tu hwnt i oes unigol, gan gysylltu'r gynulleidfa bresennol â'r rhai sydd wedi mynd o'r blaen a'r rhai a ddaw ar ôl. Fodd bynnag, mae mater gwresogi yn gyfle i gymuned yr eglwys fyfyrio ar hanfod eu traddodiadau. Tra bod cynhesrwydd corfforol yr eglwys yn ddiamau yn bwysig, mae cynhesrwydd ysbryd cymunedol, ffydd a rennir, a chariad at yr Arglwydd yn hollbwysig. Mae'r sefyllfa hon yn gwahodd y gynulleidfa i ailystyried sut y maent yn mynegi eu defosiwn ac a ellir gwneud addasiadau heb gyfaddawdu ar werthoedd craidd eu ffydd.

### Hyblygrwydd

Mae hyblygrwydd yn agwedd sylfaenol ar unrhyw gymuned lewyrchus, ac nid yw'r eglwys yn eithriad. Nid yw'r gallu i addasu yn lleihau pwysigrwydd traddodiad; yn hytrach, mae'n caniatáu i'r gymuned barhau i fod yn wydn yn wyneb heriau nas rhagwelwyd. Mae'r Beibl ei hun yn llawn straeon am addasu, lle bu'n rhaid i unigolion a chymunedau lywio eu ffordd o fyw wrth i amgylchiadau newid wrth aros yn ddiysgog yn eu ffydd. Mae



hanfod ffydd yn gorwedd nid yn unig mewn cadw at ddefodau ond mewn ymgorffori egwyddorion cariad, tosturi, a gwydnwch, y gellir eu mynegi mewn amrywiol ffurfiau. Yng ngoleuni'r mater gwresogi, mae gan yr eglwys gyfle i archwilio ffyrdd amgen o ddathlu'r Pasg wrth aros yn driw i'w ffydd. Efallai y gellid ystyried cyfarfodydd a gwasanaethau newydd a gwahanol. Ni ddylai'r ffocws fod yn unig ar y cyfyngiadau a osodir gan y gofod ffisegol y capel ond ar y posibiliadau di-ben-draw ar gyfer mynegi defosiwn a gogoneddu'r Arglwydd mewn gwahanol ffyrdd.

### Popeth i bawb

Roedd yr Apostol Paul, yn ei lythyrau at amrywiol gymunedau Cristnogol cynnar, yn aml yn pwysleisio pwysigrwydd hyblygrwydd yn wyneb amgylchiadau cyfnewidiol. Yn Corinthiaid, mae'n ysgrifennu:

> Rwyf wedi dod yn bopeth i bawb er mwyn i mi, trwy bob modd posibl, achub rhai.
>
> (1 Corinthiaid 9:22, NIV)

Mae'r doethineb hwn yn annog credinwyr i addasu eu hymagwedd gan barhau i gynnal neges sylfaenol iachawdwriaeth. Gall cymuned yr eglwys dynnu ysbrydoliaeth o'r safbwynt hwn, gan gydnabod nad yw hanfod dathlu'r Pasg wedi'i gyfyngu i adeilad yr eglwys ond yn hytrach yn eu hymrwymiad ar y cyd i addoli a gogoneddu'r Arglwydd.
Wrth i'r gynulleidfa lywio'r tymor hwn o newid, mae'n hollbwysig cofio nad yw addasu yn gyfystyr ag ymadawiad â ffydd; yn hytrach, y mae'n dyst i natur fywiol eu credoau. Yn union fel yr addasodd y disgyblion eu cenhadaeth ar ôl atgyfodiad Iesu, gall cymuned yr eglwys ddod o hyd i ffyrdd arloesol o fynegi eu defosiwn, gan sicrhau bod gŵyl y Pasg yn parhau i fod yn ddathliad bywiog o ffydd.

### Dawns ddeinamig

I gloi, mae'r cydadwaith rhwng traddodiad ac addasiad yn ddawns ddynamig sy'n anadlu bywyd i daith ysbrydol cymuned. Mae'r broblem gwresogi, er ei bod yn cael ei gweld fel rhwystr i ddechrau, yn cyflwyno cyfle i'r eglwys gofleidio hylifedd ffydd a darganfod llwybrau newydd ar gyfer mynegi eu defosiwn. Trwy ddal yn gadarn at werthoedd craidd cariad, tosturi, a gwytnwch, gall y gynulleidfa lywio heriau, addasu i newid, a pharhau i ogoneddu'r Arglwydd yn ysbryd y Pasg.

*Oddi ar wefan Capel Seion, Drefach*




# Barn Annibynnol

## Mesur effaith

Bydd y mwyafrif ohonom mae'n siŵr wedi gweithio mewn meysydd lle mae angen mesur gwerth y gwaith a wnawn er mwyn cyfiawnhau grantiau neu i sicrhau ansawdd ac enw da'r gweithle, drwy wella canlyniadau neu drwy gynyddu gwerthiant er enghraifft. Fe wnawn hyn wrth gwrs drwy osod targedau ar gychwyn blwyddyn neu brosiect ac yna fe aseswn ar y diwedd i weld a gyrhaeddwyd y targed. Ac os y'i cyrhaeddwyd, fe lwyddwyd! Neu do fe?

Beth am y meddyg er enghraifft. Os oes gan y meddyg darged i weld 10 claf mewn bore ac yntau'n gweld y 10, a yw wedi gwneud ei waith? Ar un llaw bydd, gan fod y rhif meintiol wedi ei gyrraedd. Ond gwyddom yn iawn, nad sawl claf y mae'r meddyg yn ei weld mewn bore yw gwir fesur y gwaith ond p'un a yw'r meddyg wedi gallu trin y claf fel bod y claf yn teimlo ei fod wedi cael sylw teg a'i fod yn cael y driniaeth briodol. Rydym yn fodau dynol o gig a gwaed a'n anghenion yn amrywio. Sut felly mae'r meddyg yn mesur effaith y gwaith tybed? Bydd y claf sy'n gadael yn dawelach eu meddwl, gan fod apwyntiad



arall wedi ei drefnu i edrych ymhellach, neu feddyginiaeth wedi ei gynnig i wella'r afiechyd, yn arwydd da.

Yn anffodus, rydyn ni wedi mynd i rigol rhifau a mesur drwy lwyddiant sawl un fan hyn a sawl un fan draw, heb ystyried effeithiau eraill, effeithiau sydd weithiau'n cymryd blynyddoedd i'w gweld a'u profi.

### Rhaid dyfalbarhau

Ydyn ni'n cyfri sawl sedd wag sydd yn ein capeli bob bore Sul neu sawl sedd lawn? Ydyn ni wedi rhoi ymgais ar fesur effaith gwaith ein heglwysi mewn unrhyw ffordd? Oes canllaw? Oes arweiniad ar beth sydd yn gwneud eglwys effeithiol? Ydy bod yn fwy na'r ddau neu dri yn bwysig? Ydyn ni wedi bod camddefnyddio'r adnod honno tybed er mwyn cyfiawnhau niferoedd isel yn ein cynulleidfaoedd? Oes ots?

Mae Paul yn dweud fel hyn yn ei lythyr at yr Hebreaid:

> A gadewch i ni feddwl am ffyrdd i annog ein gilydd i ddangos cariad a gwneud daioni. Mae'n bwysig ein bod yn dal ati i gyfarfod â'n gilydd. Mae rhai pobl wedi stopio gwneud hynny. Dylen ni annog a rhybuddio'n gilydd drwy'r adeg; yn arbennig am fod Iesu'n dod yn ôl i farnu yn fuan.
>
> (Hebreaid 10:24–25 BCN)

Pryderaf yn arw am y golled yr ydym wedi ei brofi yn ein cynulleidfaoedd ers cyfnod Covid. Newidiodd rhythm bywyd bore Sul i nifer fawr o bobl ac er bod y rhythm wedi ailsefydlu ym meysydd eraill bywyd, mae addoli wedi colli allan ar yr addasu'n ôl rywsut i nifer.

Pryderaf hefyd am nifer ein heglwysi sydd yn cau ond yn nyfnder fy nghalon yn ffyddiog bod yna gynllun. Ond rwy'n pryderu llawer mwy am gynulleidfaoedd sydd yn pryderu ond ddim yn gweithredu.

Rhennais gyda'n cynulleidfa ni ar gychwyn y flwyddyn taw canolbwyntio ar ddod â'r to iau yn ôl at weithgarwch y capel yw fy ngobaith eleni. Dwi ddim yn disgwyl iddynt droi i'r cwrdd bob bore Sul ond rhaid chwilio am ffyrdd newydd i rannu cariad Crist ac o bosib i lenwi ambell sedd ar fore Sul yn y pendraw.

Dros y misoedd diwethaf, rydyn ni wedi cynnal dwy ddrama, a bydd Lleuwen Steffan wedi bod gyda ni'r wythnos hon yn rhannu Emynau Coll y Werin. Bydd llawr y capel yn llawn. Nid ar fore Sul. Bydd y rhifau yno. Sut i'w cadw yw'r cam nesaf! Byddai'n dda clywed eich syniadau.

**Elin Maher**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

## PROSIECT DENMAN 2024

Eleni gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu podlediad / hysbyseb / fideo / unrhyw beth cyfrwng digidol byr (hyd at 5 munud o hyd) neu waith celf ar y thema:

### Ein hysgol Sul: 'Dysgu am Iesu.'

Roedd Iesu'n dysgu'r bobl am Dduw drwy gyfrwng damhegion. Sut ydych chi'n dysgu am Iesu Grist a'i neges?

Anfoner eich cynnyrch digidol at rhodri@annibynwyr.cymru a'r cynnyrch celf at Elinor yn Nhŷ John Penri, 5 Axis Court, Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ erbyn dydd Iau, 13 Mehefin 2024.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynyddol yn Nantgarw ym mis Gorffennaf.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

✦ Cyfres Newydd ✦ Cyfle Newydd ✦ Ffurf Newydd ✦

Cyfle gwych i ymuno mewn cyfres o chwe sesiwn fydd yn archwilio gwahanol agweddau o fywyd eglwysig.

✦ Gweddïo ✦ Arwain Addoliad ✦ Pregethu ✦ Beth yw Eglwys ✦ Gwaith Plant ac Ieuenctid ✦ Gwedd Ddigidol Eglwys ✦

**Dyddiadau:**
08/01 22/01 05/02 19/02 04/03 18/03

**Amser:**
7:00 - 9:00 o'r gloch yr hwyr.

**Lleoliad:**
Bydd modd ymuno yn y sesiynau hyn drwy fynychu eich Hwb Hyfforddi lleol. Manylion llawn pob lleoliad ar y daflen wybodaeth.



Awydd ymuno? Croeso cynnes i bawb!

Trefnir y sesiynau hyn fel rhan o gynllun Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg | Gwybodaeth pellach: carwyn@annibynwyr.cymru

| Dyddiad | Testun | Arweinydd |
|---|---|---|
| Mawrth 4 | Gwaith Plant ac Ieuenctid | Parchedig Owain Davies |
| Mawrth 18 | Gwedd Ddigidol Eglwys | Rhodri Darcy |

Cynhelir pob sesiwn rhwng 7.00 a 9.00 o'r gloch yr hwyr

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**
**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,**
**Caerdydd, CF23 9BS**
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru**

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc**
**Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**
**ABERTAWE SA7 0AJ**
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru**

*Dalier Sylw!*

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Pen-blwydd hapus i chi

Yn y llun gwelir Mr David Foulkes, sydd yn aelod ffyddlon o Gapel Coffa, Cyffordd Llandudno, yn dathlu ei ben-blwydd yn gant oed. Gwelir ef yn ysgoldy Capel Coffa yn mwynhau paned a darn o gacen pen-blwydd arbennig ar ôl yr oedfa. David ydi'r aelod hynaf yng Nghapel Coffa. Mae'n ffyddlon i bob oedfa, gan fynd o gwmpas y gynulleidfa yn hel y casgliad bob tro. Pen-blwydd hapus a llongyfarchiadau, David.

**Julie Jones**




Estynnir croeso cynnes i chi ymuno â ni ar gyfer

## Cwrdd Sefydlu'r

### Parchg Beti-Wyn James BD, MTh

Gofalaeth Y Priordy, Caerfyrddin, Cana a Bancyfelin

yn Weinidog i Iesu Grist
yn
Eglwysi Elim, Ffynnon-ddrain a Heol Awst

**Nos Wener, 12 Ebrill 2024**
**am 6.00 o'r gloch**
**yng Nghapel Heol Awst**

Ar ran Heol Awst:
Nigel George,
2 Parc Cilddewi,
Tre-Ioan,
Caerfyrddin,
SA31 3HP

Ar ran Elim:
Roland Jeremy
37 Dôl Y Dderwen,
Llangain
Caerfyrddin
SA33 5BE

**SEFYDLIR GOFALAETH NEWYDD**
**TRWY'R UNIAD HWN**
**'GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN'**

**CROESO CYNNES I BAWB**

Darperir lluniaeth wedi'r oedfa

# Llurig Badrig – *parhad*

Iesu, Waredwr,
Ti fu'n castellu o'm cylch ymhob lle,
Uwchben, o danaf, ar aswy, ar dde,
Erof ac ynof, Dywysog y Ne'.

Ti fo'n rheoli
Y sawl fo'n meddwl amdanaf fi,
Pawb a'm cyfarcho, a sieryd â mi;
Bydd ym mhob llygad a'm gwelo i.

Cyfodaf heddiw
Yn enw'r Drindod, Trined gytûn,
Gan addef y sanctaidd Dri yn Un,
Bydd imi'n Geidwad, Tydi dy Hun.

(Hen air am anadl yw 'ffun' a hen air Cymraeg am frwydr yw 'trined'. Ond sylwer bod y gerdd yn sôn am drined gytûn. Nid oes gwrthdaro ym mherthynas y Tri yn Un.)

**Emyr Gwyn Evans**

*(Ceir ail ran yr erthygl hon yn y rhifyn nesaf o'r* Tyst.*)*

## DIWRNOD Y GWEINIDOGION

Yn y gogledd

**Dydd Mercher, Chwefror 28, 10:00 - 4:00 o'r gloch**
**Canolfan Byd Mary Jones, Llanycil, Y Bala, LL23 7YF**

Yn y de

**Dydd Iau, Mawrth 7, 10:00 - 4:00 o'r gloch**
**Amgueddfa Sir Gâr, Parc yr Esgob, Abergwili, Caerfyrddin, SA31 2JG**

### Thema'r Diwnod: Golwg ar y Byd

**Rhagflas o gynnwys y sesiynnau:**

**Astudiaeth Feiblaidd - Parchg Carwyn Siddall**

Testun: "Dwedodd [Iesu] wrthyn nhw, "Ewch i gyhoeddi'r newyddion da i bawb drwy'r byd i gyd. " (Marc 16:15 beibl.net).

**Diwinyddiaeth Heddiw - Parchg Ddr Amelia Koh-Butler**

Cyfle i glywed am yr amrywiol faesydd sy'n cael eu harchwilio o ogwydd Ddiwinyddol ar hyn o bryd gan CWM, a chael cyfle i drafod perthnasedd y pynciau hyn i ni a'n cyd-destun eglwysig.

**"Dy Feibl di o'm safbwynt i" - Parchg Jeff Williams**

Dylanwad cyd-destun ar ein dehongliad a'n dealltwriaeth o'r Beibl. Pan ymwelodd y Pab John-Paul II â De America cyflwynwyd Beibl iddo gan gynrychiolwyr o grwpiau pobl brodorol Periw, "John-Paul, 'rydym ni, Indiaid yr Andes, yr rhoi dy Feibl nôl i ti, oherwydd mewn pum canrif nid yw wedi rhoi cariad, na heddwch na chyfiawnder i ni."

**Cymdeithas y Beibl yng Nghymru - Sian Wyn Rees**

Cyflwyniad ar waith Cymdeithas y Beibl yma yng Nghymru ac yn ehangach, ynghyd â chyfle i glywed am rai o'r adnoddau sydd ar gael, a sut all yr eglwysi a Chymdeithas y Beibl gydweithio ymhellach yng nghyd-destun cenhadu a rhannu Gair Duw.

**Hefyd...**

**Defosiwn:**
Arweinir gan Staff Byd Mary Jones yn y Gogledd, a'r Parchg Catrin Ann Thomas yn y De

**Y lleoliadau:**
Cyfle i weld y ddwy ganolfan

**Adnoddau:**
Cyflwyniad a chyfle i brynu adnoddau diweddaraf Cyhoeddiadau'r Gair

**Awydd dod?**

Cofrestrwch drwy gysylltu â'r Parchg Carwyn Siddall

carwyn@annibynwyr.cymru
neu
01792 795888

Darperir cinio i bawb.
Rhowch wybod am unrhyw anghenion dietegol.



*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*